

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	9 MEDI 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor
ADRODDIAD GAN:	Arweinydd y Cyngor
PWRPAS YR ADRODDIAD:	

## Rhagair

Dyma fy nhrydydd adroddiad blynyddol fel Arweinydd y Cyngor, ac yn wir, ni welwyd yr hyn oedd o'n blaen wrth gynllunio am ein tymor yn 2017. Mae'r adroddiad yn rhoi braslun o weithgaredd y Cyngor o Fai 2019 hyd at Mai 2020. Mae'r adroddiad mewn dau ran, ein llwyddiannau cyn y Pandemic ac wedyn trosolwg o ymateb y Cyngor i'r argyfwng Cofid 19.

Mae'n bwysig nodi ar gychwyn yr adroddiad fy niolchiadau i bawb sy'n sicrhau llwyddiant y Cyngor er mwyn gwasanaethu pobl Ynys Môn. Hoffwn roi clod haeddiannol i bawb sy'n gweithio mor galed wrth i'r awdurdod berfformio ymysg y gorau yng Nghymru yn 2018/2019. Nid maint sy'n creu llwyddiant ond y parodrwydd i weithio er lles y gymdeithas.

Beth ydym wedi ei wneud-



### Unedau Busnes

Mae datblygu unedau busnes yn parhau ar yr ynys. Mae'r unedau newydd yn Llangefni wedi ei llenwi yn barod. Mae nifer helaeth o ymholiadau yn parhau am rhai newydd Caergybi er yr effaith negyddol mae Cofid-19 wedi cael ar yr economi.

### Cynllun Adfer Gogledd yr Ynys

Yn dilyn penderfyniad Reheu I gau'r ffatri yn Amlwch penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i gefnogi'r ardal drwy gytuno ar gynllun adfer economaidd gogledd yr ynys. Derbyniwyd £495,000 gan NDA y gwaith hwn.





## Rhaglen Ynys Ynni

Rydym yn parhau i gefnogi rhaglen Ynys Ynni i gefnogi datblygiadau economaidd wedi eu seilio ar greu ynni. Mae cynllun Morlais i greu ynni o'r môr yn dangos cynnydd. Yn ogystal mae Minesto yn adeiladu ffatri i adeiladu eu technoleg ym Mhorthladd Caergybi. Mae disgwyl i San Steffan wneud datganiad ar ganiatâd Wylfa Newydd yn yr Hydref.



## Bid Twf Y Gogledd

Arwyddodd chwe arweinydd y gogledd yr 'Heads of terms' gyda'r ddwy Lywodraeth er mwyn symud Bid Twf y gogledd i'r cam nesaf. Cyfwerth a £ 220miliwn. Mae gan Ynys Môn gynlluniau cyffrous yn rhan o'r Fargen Twf er enghraifft Morlais, Porthladd Caergybi a chynlluniau arloesol yn Msparc. Rwyf bellach wedi fy ethol fel yr Arweinydd arweiniol yn y maes Ynni ar ran y gogledd.

## Arfor

Cynllun grantiau yw Arfor I fusnesau ddatblygu a defnyddio'r laith. Mae 11 busnes wedi derbyn grantiau datblygu busnes ac 14 busnes wedi derbyn grantiau'r laith Gymraeg ym Môn eleni.



Creu Gwaith - Cefnogi'r laith



## Adeilad a chyflenwi Tai

Daeth 104 o dai gwag yn ôl i fod yn aelwydydd wrth i ni gynyddu premiwm treth cyngor ar dai gwag. Rydym yn datblygu tai Cyngor ar 6 safle ar draws yr ynys er mwyn ymateb i'r angen lleol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyffrous gyda Chartrefi Conwy sy'n cynhyrchu tai arloesol mewn uned yng Nghaergybi er mwyn cartrefu pobl Ynys Môn.

## Llawr y Dref

Cwblhawyd cynllun adnewyddu unedau Llawr y Dref i fod yn gartrefi cysurus. Rydym wedi newid polisi gosod er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r fflatiau i'r gymuned yn Llangefni. Mewn cydweithrediad gyda'r Gwasanaeth Plant agorwyd dwy fflat hyfforddi i'n pobl ifanc sy'n gadael gofal.




## Trac ac Adtrac

Mae cynllun Trac ac Adtrac wedi gweithio yn llwyddiannus gyda chriw o bobl ifanc, a braf oedd gwahodd rhai i'r Cyngor er mwyn iddynt hwy rannu'r sgiliau coginio roeddynt wedi'i ddysgu.

## Hamdden

Mae gwella adnoddau hamdden yr ynys yn gyson yn nod gennym. Eleni cawsom arian grant i greu cae 3G bychan yn David Hughes. Adnewyddwyd offer yn yr Ystafell ffitrwydd ym Mhlas Arthur.



## Neuadd y Farchnad

Agorwyd Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi yn dilyn gwaith atgyweirio sylweddol ar ôl bod yn wag am flynyddoedd. Mae'r adeilad wedi'i achub i fod yn ganolbwynt i'r dref. Ymgartrefodd yn Llyfrgell yn daclus yn yr adeilad newydd gan gynnig gwasanaeth i'r holl genedlaethau ddod at ei gilydd mewn awyrgylch croesawgar. Rydym yn parhau i farchnata swyddfeydd amlwrpas i'w gosod.

## Parc Adfer

Agorwyd Parc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy, sef Canolfan ailgylchu i wasanaethu 5 o gynghorau'r gogledd. Bydd y datblygiad hwn yn cynhyrchu trydan allan o'r gwastraff.



## Rhesymoli defnydd ynni'r Cyngor

Buddsoddwyd £250,000 gan y Cyngor i leihau ein defnydd o ynni. Rydym wedi gweld nifer o gynlluniau er enghraifft gwella effeithlonrwydd y boiler cynhesu twr a phaneli solar yn ein canolfannau hamdden, ysgolion a prif adeilad wrth dderbyn arian grant ychwanegol.

## Cynlluniau Atal Llifogydd

Cwblhawyd cynlluniau atal llifogydd yn Llansadwrn, Pentraeth a Biwmares yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ynghyd a chynlluniau atal llifogydd bach. Mae cyfanswm y gwariant ar gynlluniau atal llifogydd am 2019/2020 yn £3.5M.



## Cyllideb

Rydym wedi cytuno ar gyllideb 20/21 sydd wedi'n galluogi i roi arian ychwanegol i wasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Mae'n bwysig nodi bod gosod cyllideb y Cyngor yn mynd yn fwy heriol gyda llai o arbedion posib a phwysau ar wasanaethau wrth i anghenion y boblogaeth dwysau.

## Rhieni Maeth

Gwelwyd nifer rhieni maeth yn cynyddu ystod y flwyddyn oherwydd y newid yn ein cynnig gyda gostyngiad yn nhreth Cyngor, aelodaeth hamdden a thocyn parcio. Mae hyn sicrhau bod plant yr ynys yn gallu byw yma ym Môn.



## Canolfannau Gofal

Rydym wedi datblygu caban gofal plant yn Ysgol Morswyn, Caergybi, ac ysgol Pencarnisiog. Bydd y rhain yn cynnig gofal plant drwy ddydd a gofal yn ystod y gwyliau ysgol. Erbyn mis Medi bydd dau arall wedi ei gorffen yn Ysgol Esceifiog a Thywyn.

## Denu Talent

Roedd cynllun denu talent yn llwyddiant unwaith eto eleni. Gwelwyd 9 person ifanc yn manteisio ar y cyfle Denu Talent, gyda rhai ohonynt yn derbyn swydd yn yr Awdurdod.



## Cynllunio Lle

Mewn cydweithrediad gyda Medrwn Môn rydym wedi cyrraedd y wardiau canlynol er mwyn Cynllunio anghenion yr ardal Twrcelyn, Llifon, Rhosyr, Aethwy a'r ardal wledig o Ganolbarth Môn. Hoffwn ddiolch i staff Medrwn Môn a thirgolion yr ardaloedd am roi eu hamser i drafod anghenion lleol a sefydlu grwpiau gweithgar.





## Sioe Môn

Yn anffodus ni chafwyd Sioe Môn eleni ond mi oedd dau ddiwrnod Sioe Môn yn ofnadwy o lwyddiannus. Mae presenoldeb y Cyngor yn y Sioe yn gyfle gwych i rannu gwybodaeth am waith eang y Cyngor. Braff ydi croesawu pawb am sgwrs ac i gael eu hadborth.

## Ymgysylltu gyda phobl ifanc

Pleser o'r mwyaf yw cael arwain criw o bobl ifanc o amgylch adeilad y Cyngor i godi eu hymwybyddiaeth am wasanaethau'r Cyngor. Mae'r sesiynau cwestiwn ac ateb yn heriol ac yn dangos pobl ifanc yr ynys ar eu gorau.



## Ymateb i'r argyfwng Cofid-19

Wrth i'r argyfwng Cofid-19 gau amdanom fel cymdeithas roedd y Cyngor yn ymateb ac yn addasu yn gyflym iawn er mwyn sicrhau diogelu'r bregus mewn cymdeithas a chefnogi'r anghenus. Rwy'n cydymdeimlo'n ddwys gyda phawb sydd wedi talu'r pris eithaf yn yr argyfwng, mae profedigaeth yn anodd mewn amseroedd arferol ond yn yr argyfwng hwn mae wedi rhoi pwysau dwysach ar deuluoedd a ffrindiau.

Beth yr ydym wedi ei wneud –

Sefydlwyd llinell ffon argyfwng 7 diwrnod yr wythnos er mwyn cefnogi'r gymuned fregus. Cawsom nifer helaeth o ymholiadau yn enwedig gan fusnesau lleol. Hoffwn ddiolch i'r staff i gyd am eu parodrwydd i weithio'r oriau ychwanegol ac am fod yn llais cysurus ochr arall i'r ffon.

**Linell Ffôn Argyfwng**

Mae ein llinell ffôn argyfwng ar gael 7 diwrnod yr wythnos.  
Ffoniwch **01248 750057** rhwng 10yb-4yp.

**Opsiynau y ddewislen ffôn yw:**

- Cymorth cyllid busnesau
- Gwasanaethau Oedolion
- Gwasanaethau Plant (gan gynnwys Teulu Môn)
- Mynediad i'r system gymorth leol
- Canolfannau gofal ysgolion
- Treth Cyngor a Refeniw
- Grastraff ac Allgylchu
- Budd-dal a gostyngiad Treth Cyngor
- Llythyr Cysgodli
- Pob ymholiad arall

Mae diweddariadau gwasanaeth ar gael ar ein gwefan: [cynghorn.gov.uk/coronafeirys](http://cynghorn.gov.uk/coronafeirys) ac ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol



**GRONFA CADERNID ECONOMAIDD  
ECONOMIC RESILIENCE FUND**

Mae Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru bellach ar agor.

Mae busnesau Ynys Môn sydd angen cymorth ariannol yn ystod pandemig Coronavirus, yn cael eu hargwngi i wirio eu cymhwysedd a gwneud cais i'w gynnwys i'r ffordd.

Caiswch drwy Business Wales  
<https://fundchecker.businesswales.gov.wales/>

The Welsh Government's Economic Resilience Fund is now open.

Anglesy businesses needing financial support, during the Coronavirus pandemic, are urged to check their eligibility and to apply as soon as possible.

Apply through Business Wales at:  
<https://fundchecker.businesswales.gov.wales/>



Cawsom dîm argyfwng i ymateb i'r pwysau economaidd lleol, roedd hyn yn ar y cyd rhwng yr adran gyllid a datblygu economi'r Cyngor. Diolch i'r staff i gyd am ymateb ac am eich llafur diflino i wasanaethu'r ynys.

Roedd rhaid gwneud y penderfyniad anodd bod Ynys Môn ar gau er mwyn diogelu ein cymunedau rhag ymlediad y firws. Hoffwn ddiolch i bawb am gefnogi'r safbwynt ac i swyddogion gwarchod y cyhoedd a'r heddlu am ymateb yn amserol os oedd pryderon lleol am ddiffyfyddu cydymffurfio.



Ar gychwyn yr argyfwng daeth y Cyngor, Medrwn Môn a Menter Môn at ei gilydd er mwyn creu cefnogaeth gymunedol. Gwelwyd dros 800 o wirfoddolwyr yn cynnig eu hunan i gefnogi cymunedau Ynys Môn. Diolch i bob un ohonynt am ddiogelu'r anghenus yn ein cymdeithas. Drwy arweiniad Menter Môn gwelwyd cynllun Neges yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau prydau bwyd maethlon i'r bregus yn ein cymdeithas. Hoffwn ddiolch i gwmni Dylan's a staff yr Adran Dai a Phrifyrdd am sicrhau bod y bwyd yn cyrraedd y stepen drws.

Ar gychwyn yr argyfwng roedd pecynnau bwyd yn cael ei danfon allan i gartrefi plant cinio am ddim. Hoffwn ddiolch i staff ieuencid y Cyngor am sicrhau hyn. Trefnwyd i daliadau uniongyrchol fynd i deuluoedd yn gymwys am ginio am ddim unwaith cawsom eglurhad ar y sefyllfa tymor canol.

**PRYDAU YSGOL AM DDIM**

O'r 27/04/2020 bydd gan rieni plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yr hawl i dderbyn taliad o £19.50 ar gyfer pob plentyn cymwys, dros drosgwyddiad cyfrif banc.

Tyddi taliadau yn cael eu gwneud yn awtomatig ac yn ddi-ddifffiant system pecynnau cwsio ddi-ddifffiant.

Er mwyn hysbysu, cwblhewch y ffurflen ar-lein [www.yrymmon.gov.uk/prydau-ysgol-am-ddim-covid-19](http://www.yrymmon.gov.uk/prydau-ysgol-am-ddim-covid-19) neu ffonwch ein llinell gymorth ar 01248 752 292 sy'n agored rhwng 9-5 bob dydd.

Bydd taliad hysbysu'r ffurflen yn fuan cyn 20/04/20 i sicrhau taliadau.

Am fwy o wybodaeth, cyngor aeth gwersi neu yn eiddo ein busnesau cyhoeddus i'r Ynys Môn.  
01248 733888



### Diolch

Gair sydd wedi'i ddefnyddio gymaint yn ystod fy adroddiad ond amhosib i'w ddefnyddio gormod. Mae amgylchiadau'r flwyddyn o Fai 2019 i Mai 2020 wedi'i newid pob un ohonom. Gallwn ymfalchïo fel Cyngor o'n staff a'n cymunedau. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth, wrth gyd-dynnu dangoswn nerth ein hynys fach.

